Prosiect X

# Reid Wyllt



Tony Bradman

DRAKE

Jon Stuart

# Reid Wyllt



Tony Bradman
Lluniau gan Jon Stuart

DRAKE

Trodd Jac, Non, Sbwt a Hops ddeialau eu watshis a ...



Roedd y meicro-ffrindiau yn eu ffau. Roedden nhw'n dadlau am beth i'w wneud.

"Beth am hela angenfilod bach," meddai Sbwt.

"O na, ddim eto!" grwgnachodd Non. "Rydw i wedi diflasu ar hynna."



"Fi hefyd," meddai Hops. "Rydw i am wneud rhywbeth sy'n HWYL!"

Yn sydyn clywson nhw synau rhyfedd.

"Beth yw *hwnna?*" gofynnodd Jac.



Edrychon nhw drwy'r ffenestr.
"Mae'n glawio," meddai Non. "Ac mae'r diferion glaw yn anferth!"



Arhosodd eu ffau'n glyd a sych ond yn fuan roedd y llwybr y tu allan yn llawn dŵr. Llifodd i lawr y llethr a thasgu dros y grisiau.





“Mae’n union fel afon,” meddai Sbwt.
“Cwch neu rafft fyddai’n braf,” meddai Hops.

Edrychodd Jac ar yr holl bethau oedd ganddyn nhw yn y ffau.

"Gallen ni adeiladu un," meddai.

① Clymodd Jac benseli gyda'i gilydd â llinyn.



② Daeth Non o hyd i lwy fel rhwyf.



3 Gwnaeth Sbwt siacedi achub â chyrcs.




4 Gwnaeth Hops helmedau â chwpanau mes.



“Am rafft wych!” meddai Jac. “Pawb yn barod?”

“Siŵr iawn!” gwaeddodd Hops. “Bant â ni!”



Gwthion nhw'r rafft allan o'r ffau. Byrlymai dŵr ar hyd y llwybr.

Dringodd y meicro-ffrindiau ar eu rafft.

"Daliwch yn dynn!" gwaeddodd Jac.



*Whii!* Gwibiodd y rafft i lawr y llwybr. Cyn hir daethon nhw at y gris cyntaf a hedfan drosto. Glanion nhw gyda *SBLASH!* anferth.



“Roedd hynna’n syfrdanol!” bloeddiodd Hops.
“Am reid wyllt!” sgrechiodd Non.
“Mae fel rafftio dŵr gwyn,” gwaeddodd Sbwt.
“Daliwch yn dynn, bawb!” gwaeddodd Jac.
“Rhaeadrau’n syth o’n blaenau...”



Hedfanon nhw dros y gris nesaf... *SBLASH!*
Yna'r nesaf... *SBLASH!* Yna'r nesaf... *SBLASH!*
Roedd y rafft yn mynd yn gynt ac yn gynt.



“Dwi ddim mor hoff o hyn nawr,” ochneidiodd Non.
“Na fi,” meddai Hops.
“Rydw i’n teimlo’n sâl,” griddfannodd Sbwt.
“Peidiwch â gofidio,” dywedodd Jac.
“Fe geisiaf ein harafu ni ...”



Roedd y llif yn gryf. Hedfanodd y rafft dros ris arall ... *SBLASH!* Yna un arall - y mwyaf a'r olaf – *SBLASH!*

Rhoddodd Jac ochenaid o ryddhad ac edrychodd i fyny. Roedd e'n teimlo'n sâl hefyd.

Roedd y rafft yn anelu at ffens oedd o amgylch y llyn.



Ymddangosodd y ffens o'u blaenau. Roedd tyllau rhwng y bariau dur. Ond doedden nhw ddim yn ddigon llydan i'r rafft.

"Aaah!" sgrechiodd Hops. "Mae ar ben arnon ni!"



"Rhaid i ni neidio!" gwaeddodd Jac.

Roedd y rafft yn gwibio dros y borfa. Roedd yr awyr yn llawn o ddiferion dŵr.

"Ar gyfrif tri," bloeddiodd Jac. "Un... dau... *TRI!*"



Neidiodd Jac, Non a Hops yn glir ond roedd gormod o ofn ar Sbwt. Roedd e'n dal yn y rafft.

"*HELP!*" sgrechiodd Sbwt.

"Fedra i ddim edrych," meddai Non.



Trawodd y rafft y ffens gyda *CHLATSH!* a thorri.
Daliodd Sbwt yn dynn yn y penseli oedd ar ôl.



Hedfanodd drwy'r twll yn y ffens a gwibio ar draws y llyn. Glaniodd y penseli ar ynys fechan ynghanol y llyn. Taflwyd Sbwt i ganol y mwd gludiog.



“Sbwt!” gwaeddodd Non. “Wyt ti’n iawn?”
Cododd Sbwt ar ei draed a chodi llaw.

“Whiw!” dywedodd Jac. “Nawr dim ond ei gael e ’nôl sydd raid i ni.”

Edrychodd Hops ar y rafft oedd wedi malu. “Sut wnawn ni hynna, Jac?” meddai.



Edrychodd Non ar draws y llyn. Edrychai Sbwt druan yn llai nag arfer! Yna gwelodd hi rywbeth yn symud yn y dŵr. Nofiodd cysgod anferth heibio.

"Rydyn ni angen rafft fwy o faint," meddai hi.



**I'w barhau ...**